CYHOEDDIAD, DOGFENNU

# Cyfarfod Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol: 14 Ebrill 2024

Crynodeb o funudau'r cyfarfod a chynhaliwyd ar 14 Mai 2024.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 14 Ebrill 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 14 Ebrill 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-14-ebrill-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


**Yn bresennol**

**Cyflwyniad**

**Unrhyw fater arall**

**Y cyfarfod nesaf**



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-14-ebrill-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Yn bresennol

Frances Duffy, Cadeirydd
Saz Willey, Is-gadeirydd
Bev Smith, Aelod
Kate Watkins, Aelod
Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Dianne Bevan, Aelod
Sara Rees, Ysgrifenyddiaeth
Shan Whitby, Ysgrifenyddiaeth

## Rhanddeiliaid allanol oedd yn bresennol yn y cyfarfod

Roger Ashton-Winter, Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
Y Cynghorydd Rob Stewart, Arweinydd y Cyngor, Cyngor Abertawe
Chris Stevens, Swyddog Polisi yn Llywodraeth Cymru

# Cyflwyniad

Cyfarfu Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (‘y Panel’) ddydd Mawrth 14 Mai 2024.

Nod y cyfarfod oedd:

- trafod pontio o’r Panel i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ym mis Mawrth 2025
- adolygu nodiadau cyfarfod mis Ebrill 2024 (y nodiadau llawn a’r crynodeb), a chytuno arnynt, gan nodi’r camau gweithredu, y gyllideb a Diweddariad yr Ysgrifenyddiaeth
- trafod taliadau cydnabyddiaeth ar gyfer y Cyd-bwyllgorau Corfforaethol, gan

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-14-ebrill-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

gytuno ar y camau nesaf
- trafod Unrhyw fater arall

## Y diweddaraf am y trefniadau pontio

Adroddodd y Cadeirydd fod Cyfnod 1 y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) wedi'i gwblhau, gan nodi y bydd y Bil yn symud ymlaen i Gyfnod 2 a bod y gwrandawiad pwyllgor nesaf i'w gynnal ddydd Iau 16 Mai. Dilynir hyn gan ddadleuon Cyfnod 3 a Chyfnod 4 ar 18 a 24 Mehefin.

Bydd y Cadeirydd yn gweithio gyda Roger Ashton-Winter (RAW) a Bev Smith (BS) i ddatblygu Cynllun Pontio, gan nodi'r camau gweithredu ac amlygu'r materion er mwyn sicrhau bod gwaith yn cael ei gynllunio a'i gwblhau cyn i'r cyfnod pontio ddod i ben ym mis Ebrill 2025. Gwneir hyn er mwyn sicrhau bod y trefniadau pontio ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ym mis Ebrill 2025 yn mynd rhagddynt yn ddi-rwystr.

## Cyllideb

Trafododd y Panel y gyllideb ar gyfer 2024 i 2025 a nodwyd y gyllideb a osodwyd ar gyfer cyfathrebu/ymgysylltu ac ar gyfer ymchwil.

## Camau gweithredu a diweddariad yr ysgrifenyddiaeth

Cytunodd y Panel ar y cofnodion llawn a'r crynodeb ar gyfer ei gyfarfod ym mis Ebrill 2024.

Adolygodd y Panel yr ohebiaeth oddi wrth ddau Brif Gyngor a'i thrafod.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-14-ebrill-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforaethol

Nid yw'r Panel wedi ystyried yn fanwl cyn hyn y cwestiwn o gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer aelodau'r Cyd-bwyllgorau Corfforaethol ('y Cyd-bwyllgorau') sydd newydd eu sefydlu, ar ôl gwneud y penderfyniad yn ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2022 i aros i'r cyrff newydd hyn gael eu datblygu cyn trafod hyn.

Ystyriodd y Panel bapur penderfyniad, a luniwyd ar y cyd gan yr Ysgrifenyddiaeth a'r arweinydd polisi yn Llywodraeth Cymru ar gyfer y Cyd-bwyllgorau. Roedd y papur yn darparu gwybodaeth er mwyn i'r Panel ystyried a ddylai aelodau'r Cyd-bwyllgorau gael tâl cydnabyddiaeth drwy nodi Pwerau a Dyletswyddau, Aelodaeth a Strwythur, Llywodraethiant, Safonau a Chraffu.

Croesawodd y Panel hefyd y Cynghorydd Rob Stewart, Cadeirydd Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru i roi trosolwg ar y cynnydd hyd yma o ran datblygu'r Cyd-bwyllgorau, eu rolau a'u cyfrifoldebau ac i gyfrannu at y drafodaeth ar daliadau cydnabyddiaeth ar gyfer yr aelodau.

Cytunodd y Panel, fel blaenoriaeth, y dylid cyhoeddi Adroddiad Atodol, i fod yn destun ymgynghoriad, er mwyn cynllunio Penderfyniad Drafft ar daliadau cydnabyddiaeth ar gyfer aelodau lleyg cyfetholedig y Cyd-bwyllgorau. Byddai hyn yn dilyn yn fras yr egwyddorion y cytunwyd arnynt eisoes ar gyfer aelodau cyfetholedig y Prif Gynghorau, Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol a'r Awdurdodau Tân ac Achub. Nododd y Panel eu bod wedi cytuno yn flaenorol y dylid talu hawliadau costau teithio a chynhaliaeth a chostau lwfansau gofal i holl aelodau'r Cyd-bwyllgorau.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-14-ebrill-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Unrhyw fater arall

Gwrthododd y Panel wahoddiad i fod yn bresennol yng Nghynhadledd CLILC 2024, oherwydd ymrwymiadau eraill a oedd yn y dyddiadur eisoes.

Trafododd y Panel y trefniadau ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid (i baratoi ar gyfer cyhoeddi adroddiad drafft).

## Y cyfarfod nesaf

Cynhelir cyfarfod nesaf Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar 25 Mehefin 2024.

Os bydd gennych unrhyw faterion yr hoffech eu codi gyda'r Panel, a fyddech cystal â chysylltu â'r Ysgrifenyddiaeth drwy anfon e-bost i **IRPMailbox@llyw.cymru**.


**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-14-ebrill-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.